# DATGANIAD AMGYLCHEDDOL CYNGOR CAERDYDD
# EBRILL 2020 - MAWRTH 2021

## 1 Natur a Graddfa Gweithgareddau'r Cyngor

Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Unedol dros Gaerdydd yn ne-ddwyrain Cymru Mae'r Cyngor yn gyflogwr mawr yng Nghaerdydd ac yn y ddinas-ranbarth ehangach, gyda gweithlu o tua 11,460 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (Mawrth 2021) yn gweithredu o dros 130 o safleoedd ledled Caerdydd, ynghyd ag ysgolion. Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau i boblogaeth o tua 369,202 o bobl (canol 2020).

## 2 Blaenoriaethau Amgylcheddol

**2.1** Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Mae'r Cyngor wedi'i achredu i Lefel 3 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yw hon sydd wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau i wella eu perfformiad amgylcheddol o fewn fframwaith ffurfiol.

Mae gan y Safon 5 lefel gyda lefel 1 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad amlinellu ei ymrwymiad i reolaeth amgylcheddol. Mae angen ymrwymiad sefydliadol ychwanegol ar gyfer symud ymlaen drwy'r lefelau, gyda Lefel 5 yn cyfateb yn fras i Safon Ryngwladol ISO 14001 neu safon Ewropeaidd EMAS. Cyflawnodd y Cyngor gofrestriad corfforaethol i Lefel 3 y Ddraig Werdd ym mis Mai 2012, yn dilyn cyflawni cofrestriad i Lefel 2 yn 2008 a Lefel 1 yn 2006.

Mae achrediad i Lefel 3 yn canolbwyntio ar reolaeth amgylcheddol ymarferol ac yn gofyn i sefydliad ddangos sut mae'n gweithredu i reoli a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Mae'r prif feysydd perfformiad amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithio'n barhaus i'w gwella yn cynnwys:

- sut mae'n defnyddio ynni a dŵr,
- trafnidiaeth fflyd,
- teithio staff,
- gwastraff a
- chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol.

Ceir tystiolaeth o'r gwaith hwn yn flynyddol yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n disgrifio natur a graddfa gweithgareddau mewnol y sefydliad, ei flaenoriaethau a'i berfformiad amgylcheddol presennol, a'i allyriadau $CO_2$ e.

## 2.2 Amcanion Amgylcheddol

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldeb dros ddiogelu a gwella'r amgylchedd ac wrth helpu i ddatblygu gweledigaeth Caerdydd Un Blaned Caerdydd fel sefydliad a dinas carbon niwtral. Mae'r Cyngor yn deall bod ganddi rôl sef arwain trwy esiampl a helpu i gyflawni gwelliannau amgylcheddol, yn y sefydliad ac ar draws Caerdydd trwy ddarparu gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio. Mae'r Cyngor wrthi'n cyflwyno cam cychwynnol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae cofrestru i safon y Ddraig Werdd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol a'r 5 Dull o Weithio sy'n rhan ohono.

Yn 2020/21, ymrwymodd y Cyngor i'r canlynol:

1. Cynnal cofrestriad corfforaethol i safon amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 3 a chynnal grŵp bach o safleoedd ar Lefel 4 y Ddraig Werdd.
2. Gostwng faint o ynni ($CO_2$ e) a ddefnyddir ganddo yn adeiladau Cyngor a goleuadau stryd gan 3%.
3. Cynyddu faint o ddŵr a ddefnyddir ganddo mewn adeiladau craidd *(wedi'i ffitio â darlleniad mesurydd awtomatig)* gan 0%.
4. Rhaid i holl adeiladau'r Cyngor gael casgliad ailgylchu cymysg sych a chasgliad bwyd pan fo'n briodol.
5. Rhaid i adeiladau'r Cyngor gyflawni canran ailgylchu yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru tuag at Ddyfodol Diwastraff (70% erbyn 2025) - yn seiliedig ar ffigurau casglu 2018/19 a nifer y safleoedd sy'n gweithredu ar draws yr ystâd.
6. Hyrwyddo beicio a cherdded a dulliau teithio cynaliadwy eraill i staff.
7. Gostyngiad allyriadau fflyd $CO_{2\,e}$ gan 3%.
8. Gwneud y mwyaf o fuddion cymunedol ar gontractau caffael mwy o werth.
9. Ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ym mhrif gontractau'r Cyngor.
10. Codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth ymhlith staff a gwella bioamrywiaeth ar safleoedd y Cyngor.

***Tabl 1 – Dangosydd o'r prif dargedau o un flwyddyn i'r llall dros y 4 blynedd diwethaf***

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| **Gostwng faint o ynni ($CO_2$ e) a ddefnyddir yn adeiladau Cyngor a goleuadau stryd** | -31.3% | -33.5% | -8.4% | -19% |
| **Lleihau'r faint o ddŵr a ddefnyddir yn adeiladau craidd y Cyngor** | +2.8% | 0% | +3.8% | -53% |
| **Lleihau capasiti gwastraff cyffredinol ledled safleoedd cynghorau** | -1.6% | 0% | +5.3% | +5.3% |
| **Cynyddu capasiti ailgylchu ledled safleoedd cynghorau** | +0.8% | 0% | +2.0% | +0.6% |
| **Cynyddu capasiti gwastraff bwyd ledled safleoedd y Cyngor** | +1.8% | +0.1% | -1.4% | -5.7% |
| **Lleihau allyriadau $CO_2$ e y fflyd** | +4.6% | -6.3% | -0.1% | -5.5% |

## 3. Perfformiad yn erbyn Amcanion a Thargedau

**3.1** Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Cynhaliodd y Cyngor gofrestriad corfforaethol i Lefel 3 y Ddraig Werdd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y safleoedd canlynol yn cynnal cofrestriad i Lefel 4:

- Amlosgfa a Mynwent Draenen Pen-y-graig
- Canolfan Addysg Awyr Agored Storey Arms
- Swyddfeydd Canolfan Addysg Parc Bute.

**3.2 Gostyngiad o 3% mewn $CO_2$e ar ddefnydd ynni'r llynedd yn adeiladau'r Cyngor / goleuadau stryd**

Cafwyd gostyngiad sylweddol o 19% mewn $CO_2$e yn 2020/21. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad sylweddol yn y defnydd yn eiddo'r Cyngor ar ôl i bolisi gwaith cartref gael ei fabwysiadu'n gyflym o ganlyniad i bandemig COVID 19. Gyda'r mwyafrif helaeth o'r gweithlu'n gweithio gartref, nid oedd yn ofynnol i eiddo'r cyngor gael ei wresogi, ei oleuo ac ati ac felly defnyddiwyd llawer llai o ynni nag a ragwelwyd mewn blwyddyn gyfartalog. Parhaodd y polisi hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan ac mae'n parhau yn 2021/22. Wrth symud ymlaen, mae'r Amgylchedd Adeiledig yn un o ffrydiau gwaith allweddol Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor, a bydd angen cynyddu mesurau lleihau carbon a gwrthbwyso yn sylweddol.

**3.3 Cynnydd o 0% yn faint o ddŵr a ddefnyddir mewn adeiladau craidd**

Gostyngodd y defnydd o ddŵr dros 50%, ond mae hyn oherwydd bod nifer sylweddol is o staff yn y swyddfeydd craidd oherwydd Covid.

*Safleoedd o fewn yr amcan corfforaethol: Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir*

**3.4 Mae'n rhaid i holl adeiladau'r Cyngor gael casgliad ailgylchu cymysg sych a chasgliad bwyd pan fo'n briodol.**

Roedd llai o feddiannaeth yn eiddo'r Cyngor ar ôl i bolisi gwaith cartref gael ei fabwysiadu'n gyflym o ganlyniad i bandemig COVID 19, ac er bod hyn wedi cael effaith ar gasgliadau a gweithrediadau gwastraff, ni ddylai hyn fod wedi effeithio ar y capasiti ar gyfer ailgylchu a gwastraff bwyd.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y capasiti ar gyfer gwastraff yn amrywio ac mae'r data'n dangos cynnydd cyffredinol mewn capasiti gwastraff gweddilliol o 5.34% a gostyngiad o 5.73% mewn gwastraff bwyd, gyda dim ond cynnydd o 0.6% mewn capasiti ailgylchu.
Mae'n ymddangos bod tuedd barhaus i gynyddu capasiti gwastraff sy'n dynodi cynnydd mewn cynhyrchu gwastraff yn adeiladau'r Cyngor, ac felly argymhellir bod

holl adeiladau'r Cyngor yn canolbwyntio ar leihau eu gwastraff yn codi, cynyddu ailgylchu / ailddefnyddio a symud oddi wrth gynhyrchion untro.

Yn ogystal, disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd yn 2022 (dyddiad sydd eto i'w gadarnhau) a fydd yn creu gofyniad cyfreithiol i bob adeilad dibreswyl wahanu eu gwastraff a'u hailgylchu'n ddeunyddiau ar wahân. Nod y ddeddfwriaeth hon yw helpu Cymru i greu Economi Gylchol gyda chyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025, ac mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r nod hwn. Oherwydd y newid hwn, rydym yn rhagweld cynnydd mewn casgliadau ailgylchu a gwastraff bwyd ym mhob un o adeiladau'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf.

| | **2018/19** | **%** Cyfanswm | **2019/20** | **%** Cyfanswm | **2020/21** | **%** Cyfanswm | **Canlyniadau +/- litr** | **% y newid 2019/20 i 2020/21** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Capasiti Gwastraff Gweddilliol fesul wythnos (litrau)** | 351,008 | 54 | 369,530 | 54.88 | 389,276 | 56.19 | +19,746 | +5.34 |
| **Capasiti Ailgylchu fesul wythnos (litrau)** | 267,602 | 41.17 | 272,828 | 40.52 | 274,365 | 39.60 | +1,537 | +0.56 |
| **Capasiti Biniau Bwyd fesul wythnos (litrau)** | 31,418 | 4.83 | 30,965 | 4.6 | 29,192 | 4.21 | -1,773 | -5.73 |
| **Cyfanswm Capasiti fesul wythnos (litrau)** | 650,029 | 100 | 673,323 | 100 | 692,835 | 100 | +19,512 | +2.90 |

**3.5 Mae'n rhaid i adeiladau'r Cyngor gyflawni canran ailgylchu sy'n unol â thargedau Llywodraeth Cymru tuag at Ddyfodol Diwastraff (64% erbyn 2020).**

Mae'r data yn Adran 3.4 yn rhoi syniad o gyfraddau ailgylchu ar gyfer adeiladau'r Cyngor yn ystod 2020-21. Fodd bynnag, gan fod hyn yn seiliedig ar gapasiti gwastraff, nid yw'n adlewyrchiad cywir oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID 19.

Yn 2020-21 caewyd llawer o adeiladau'r Cyngor, neu'n gweithredu gyda staff sgerbwd am hanner y flwyddyn neu fwy, a chafodd hyn effaith fawr ar y casgliadau gwastraff o'r safleoedd hyn. Roedd 72% yn llai o wastraff yn cael ei gasglu, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, arweiniodd hyn at ostyngiad o 77% yng nghyfanswm y casgliadau ailgylchu a gwastraff bwyd a gostyngiad o 78% yng nghyfanswm y casgliadau gwastraff cyffredinol. Gydag amcangyfrif o gyfradd

ailgylchu o 35%, nid oedd adeiladau'r Cyngor yn cyrraedd y targed ailgylchu o 64% ar gyfer 2020/21.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd y cyfeirir ati yn 3.4 yn arwain at holl adeiladau'r Cyngor sydd angen newid y ffordd y maent yn storio ac yn cyflwyno eu hailgylchu, a byddant yn mynnu cynwysyddion ar wahân ar gyfer metel/plastig, cerdyn/papur, gwydr a bwyd.

Mae treialon gwahanu ailgylchu eisoes wedi dechrau yn Neuadd y Sir. Nod y treial yw nodi'r ffordd orau o gefnogi adeiladau'r Cyngor i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd hyn. Dechreuodd y treial ar 14 Mehefin 2021, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cael ei gyflwyno i holl adeiladau'r Cyngor cyn y ddeddfwriaeth newydd.

| Yn seiliedig ar amcangyfrifon | **2020/21** | **%** Cyfanswm |
|---|---|---|
| **Gwastraff Gweddilliol a Gasglwyd fesul wythnos (litrau)** | 122,277 | 64.53 |
| **Ailgylchu a Gasglwyd fesul wythnos (litrau)** | 60,322 | 31.84 |
| **Gwastraff Bwyd Wedi'i Gasglu fesul wythnos (litrau)** | 6,878 | 3.63 |
| **Cyfanswm Capasiti fesul wythnos (litrau)** | 189,477 | 100 |

### 3.6 Hyrwyddo beicio a cherdded a dulliau teithio cynaliadwy eraill i staff

Mae cynllun 'Beicio i'r Gwaith a hyfforddiant beicio am ddim ar gael i weithwyr y Cyngor. Mae gwybodaeth am deithio llesol hefyd ar gael. Mae Cyngor Caerdydd wedi cofrestru i'r 'Siarter Teithio Iach' sy'n nodi ymrwymiadau i gefnogi teithio iach.



O ganlyniad i'r newidiadau cyflym i batrymau gwaith sy'n deillio o ofynion a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid, mae teithiau cymudo wedi newid yn sylweddol, gyda chyfran sylweddol o staff y Cyngor wedi bod yn gweithio gartref drwy gydol y pandemig. Mae gwaith ar y gweill i fapio newidiadau tymor hwy i ffyrdd o weithio, a fydd yn llywio'r ffordd orau o deithio'n egnïol a chynaliadwy barhau i gael ei hyrwyddo i staff yn y dyfodol.

### 3.7 Gostyngiad o 3% yn yr allyriadau fflyd $CO_2$ e yn seiliedig ar allyriadau 2019/20

Mae'r allyriadau $CO_2$ e o gerbydau fflyd y Cyngor yn 2020/21 (heb gynnwys milltiroedd staff mewn cerbydau eu hunain) yn unol â'r defnydd llai o danwydd, a gellir neilltuo gostyngiad o 5.5% ar draws fflyd gyfan y Cyngor i'r defnydd llai o gerbydau unigol sy'n effaith uniongyrchol pandemig COVID-19. Bydd cyflwyno cerbydau E-fflyd 2021/22 yn helpu i leihau allyriadau $CO_2$ e y fflyd yn barhaus.

**3.8 Gwneud y mwyaf o fuddion cymunedol ar gontractau caffael mwy o werth.**

Mae Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol y Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar y manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a ddarperir i gymunedau drwy ei wariant caffael blynyddol o £482 miliwn. Mae'r polisi wedi'i lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol a pholisïau cenedlaethol eraill. Bydd y Polisi'n cael ei ddiweddaru ddiwedd 2021 a bydd lleihau ôl troed carbon y Cyngor a hyrwyddo adrannau'r economi sylfaenol yn cael ei gryfhau.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision cymunedol a ddarperir drwy gontractau'r Cyngor, dechreuodd y Cyngor gyflwyno'r defnydd o 'Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cymru (ThCM)' a'r Porth Gwerth Cymdeithasol o haf 2020. Mae mesurau ThCM Cymru wedi'u strwythuro o amgylch Themâu Lles y Cyngor ac yn darparu gwerthoedd ariannol dirprwyol yn erbyn pob un sy'n cefnogi asesiad gwrthrychol o 'gynnig' gwerth cymdeithasol tendrwyr. Bydd cyflwyno ThCM Cymru yn parhau yn 2021/22 a bydd effaith deunydd Covid/Brexit a chostau llafur yn cael ei fonitro i weld sut mae hyn yn effeithio ar gynnig gwerth cymdeithasol tendrwyr.

**3.9 Ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd ym mhrif gontractau'r Cyngor.**
Fel y Cyngor Cyflog Byw achrededig hwyaf yng Nghymru a'r sefydliad sector cyhoeddus cyntaf i ymuno â'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi mae gan y cyngor ymrwymiad clir i gaffael moesegol. Yn nhermau'r Cyflog Byw 'gwirioneddol' ym mis Tachwedd 2019 cydnabuwyd Caerdydd fel ail Ddinas Cyflog Byw y DU. Mae'r Cyngor a'r partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynllun gweithredu 3 blynedd uchelgeisiol gyda'r nod o gynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw achrededig a chyflogeion yng Nghaerdydd. Mae'r Cyngor yn annog sefydliadau eraill i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig trwy fecanweithiau fel ein Cynllun Cymorth Achredu'r Cyflog Byw ar gyfer BBaChau ac yn annog tendrwyr i gael eu hachredu. Rydym wedi cynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd o 46 ym mis Mai 2017 i 138 ym mis Mai 2021 gyda dros 8,000 o bobl yn derbyn cynnydd cyflog i'r Cyflog Byw go iawn a bron i 60,000 o bobl yn gweithio i gyflogwr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi cefnogi sefydlu gwefan https://cyflogbyw.cymru/.

Mae Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ym mis Ebrill ac yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud, a bydd yn ei wneud, er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghaerdydd. Mae bron i 3,000 o staff wedi cwblhau rhaglen hyfforddi lwyddiannus.

Gweithiodd y Tîm Caffael gyda WRAP Cymru yn 2020/21 i ddadansoddi gwariant caffael a nodi cyfleoedd i gau dolenni deunydd a chynnyrch drwy ailgylchu ac ailddefnyddio. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant caffael cylchol WRAP ddiwedd 2020 i'r Tîm Caffael a'r staff allweddol sy'n ymwneud â'r broses gaffael. Byddwn yn ceisio parhau i weithio gyda WRAP yn 2021/22. Bydd caffael cylchol yn rhan annatod o Strategaeth Gaffael Cymdeithasol-Gyfrifol Newydd y Cyngor yn 2021 a bydd hefyd yn cysylltu'n gryf â Strategaeth Caerdydd Un Blaned.

**3.10 Codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth ymhlith staff a gwella bioamrywiaeth ar safleoedd y Cyngor.**

Mae gwasanaeth Ceidwaid Cyngor Caerdydd wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ledled y Ddinas. Oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID 19 mae gwaith gwirfoddolwyr ymarferol wedi'i ohirio drwy gydol y flwyddyn, ond mae'r tîm wedi parhau i gefnogi'r rhwydwaith o ffrindiau a grwpiau gwirfoddol drwy ohebiaeth a chyfarfodydd rhithwir.

Oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID 19, cafodd prosiect partneriaeth 'Rhoi Cartref i Natur' gyda'r RSPB a Buglife ei adolygu a'i adnewyddu er mwyn galluogi mwy o ymgysylltu â'r gymuned ar-lein.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu Fferm y Fforest fel hyb i wirfoddolwyr. Mae prosiect 'Dim colled net' Network Rail ar gyfer Fferm y Fforest wedi parhau, gan alluogi amrywiaeth o brosiectau rheoli ac adfer cynefinoedd ar draws y safle. Mae gweithdai i ddatblygu sgiliau gwirfoddolwyr i helpu gyda gwaith arolygu ar gyfer y prosiect ac yn ehangach wedi'u gohirio tan 2021/2022 oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID 19.

Mae Partneriaeth Natur Leol Caerdydd yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ledled Cymru drwy brosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan rannu syniadau ac arfer gorau ar gyfer gwella bioamrywiaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau trawsffiniol i wella cysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau a chynyddu gwytnwch ecosystemau.

Darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer prosiect 'waliau gwyrdd' ac offer i wella'r ffordd y rheolir glaswelltir ar gyfer peillwyr drwy gynllun 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru eleni. Gweithredwyd y prosiectau hyn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.

Mae’r Cyngor wedi cyhoeddi ei adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (BRED) yn unol ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac mae’n gweithio i godi ymwybyddiaeth drawsadrannol o rwymedigaethau bioamrywiaeth y Cyngor.

**3.11 Offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)**

Polisi offer TGCh y Cyngor yw sicrhau bod offer TGCh yn cael ei ddefnyddio cyhyd ag sy’n bosibl heb ddyddiad “diwedd oes” awtomatig. Penodir offer TGCh corfforaethol am oes gwasanaeth hir a chaiff ei brynu gyda gwarant gwneuthurwr 4 blynedd. Caiff ei ddefnyddio hyd nes ei fod naill ai’n methu y tu allan i warant ac mae y tu hwnt i gael ei drwsio’n ddarbodus, neu tan na chaiff ei gefnogi bellach gan ddiweddariadau meddalwedd gwneuthurwyr.

Bellach mae pob cyfrifiadur a gliniadur newydd yn cael eu penodi gyda disgiau cyflwr solet er mwyn mwy o ddibynadwyedd, gan nad oes unrhyw rannau sy’n symud bellach nid oes unrhyw beth i dreulio ac maent yn fwy gwydn yn erbyn niwed o gael eu bwrw. Caiff offer sy’n cael ei adnewyddu oherwydd gofynion perfformiad defnyddwyr ei gadw

i gael ei ailddyrannu i ddefnyddwyr eraill yn y Cyngor sydd â gofynion perfformiad is o bosibl.

Pan gaiff offer ei asesu fel “diwedd oes” caiff ei gasglu gan gwmni gwaredu asedau technoleg gwybodaeth achrededig sy’n cydymffurfio â WEEE (Gwastraff o Gyfarpar Trydanol ac Electronig), a ddewiswyd oherwydd ei allu i ddileu/glanhau data drwy ddull achrededig i safonau’r llywodraeth. Mae’r cwmni hwn hefyd yn trwsio ac yn ailwampio offer lle y bo’n bosib i’w ddefnyddio’n barhaus. Caiff unrhyw beth na allant ei ailwampio ei dorri lawr i’w wahanol gydrannau fel plastig, metel, byrddau cylched, batris a’u trosglwyddo i gwmnïau sy’n arbenigo mewn ailgylchu’r cynhyrchion hynny a thrwy hynny’n lleihau’r hyn a fyddai’n mynd i safleoedd tirlenwi.

Oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ystod y flwyddyn Ebrill 2020 – Mawrth 2021, nid oes unrhyw offer wedi'i anfon i'w ailgylchu.  Mae hyn oherwydd y cyfyngiadau cloi ac mae angen defnyddio'r galw am offer ychwanegol gartref.

Gyda'r disgwyl y bydd y Cyngor yn symud tuag at weithio ystwyth, disgwylir y bydd pryniannau yn y dyfodol yn blaenoriaethu gliniaduron y gellir eu defnyddio gartref ac yn y swyddfa a allai arwain at ostyngiad yn nifer yr unedau a gefnogir.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion Caerdydd yn gyfrifol am waredu eu hoffer TGCh eu hunain ac yn gwneud eu trefniadau eu hunain er bod llawer yn defnyddio'r un cwmni â TGCh Corfforaethol.  O fis Medi 2021, mae 'cytundeb lefel cymorth' cymorth newydd yn cael ei weithredu sy'n golygu y bydd TGCh yn cynorthwyo ysgolion i ailgylchu offer.

**3.12 Defnydd papur**

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd a phapur argraffu ailgylchadwy 100% a gymeradwywyd gan yr UE ym mhob un o'r 52 o safleoedd llungopïo Printsmart ar draws swyddfeydd y Cyngor.  Mae hyn yn cyfrif am fwyafrif yr holl argraffu mewnol ar draws y Cyngor, ond gwneir rhywfaint o argraffu o hyd ar argraffwyr bwrdd gwaith bach nad oes gennym ffigurau defnydd papur ar eu cyfer. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, oherwydd pandemig COVID 19, mae argraffu wedi gostwng tua 50% i 8.5 miliwn o daflenni A4.  Mae staff sy'n gweithio gartref yn dod o hyd i ffyrdd eraill o ohebu a gweithio i leihau eu hamser mewn swyddfeydd, sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar leihau argraffu.

**3.13 Datganiad Argyfwng Hinsawdd**

Ar 28 Mawrth 2019 cymeradwyodd Cyngor Caerdydd gynnig i ddatgan Argyfwng Hinsawdd.

Datganodd Llywodraeth Cymru hefyd argyfwng hinsawdd ar 29 Ebrill 2019, y diwrnod ar ôl Llywodraeth yr Alban ac yna Llywodraeth y DU ar 1 Mai. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei huchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030.  Mae hyn cyn addewid Llywodraeth y DU i'r DU gyfan fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Mae Uchelgais Prifddinas, gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y ddinas, yn ei gwneud yn glir bod ymateb i newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod twf y ddinas yn cael ei reoli'n gynaliadwy yn flaenoriaeth.

*'Rhaid i dwf fod yn gynaliadwy ac yn wydn. Dyna pam [y byddwn ni] yn rhoi blaenoriaeth i ddulliau teithio cynaliadwy, parhau i ymdrechu i gynyddu cyfraddau ailgylchu, a rhoi camau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.'* - Uchelgais Prifddinas

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at fod yn sefydliad a dinas garbon niwtral erbyn 2030. Manylir ar hyn yn Strategaeth Caerdydd Un Blaned, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2021.

## 4. Allyriadau Carbon Deuocsid[1]

### 4.1 Cyfanswm allyriadau $CO_2$ e

| Ffynhonnell | Allyriadau $CO_2$ (Tunelli $C0_2$ e) 2017/18 | Allyriadau $CO_2$ (Tunelli $C0_2$ e) 2018/19 | Allyriadau $CO_2$ (Tunelli $C0_2$ e) 2019/20 | Allyriadau $CO_2$ (Tunelli $C0_2$ e) 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| Adeiladau/Goleuadau Stryd | 13,069 | 8,685 | 7,956 | 6,437 |
| Trafnidiaeth | 5,174 | 4,850 | 4,844 | 4,286 |
| **Cyfanswm** | **18,243** | **13,535** | **12,800** | **10,723** |

Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ e yw'r isaf a gofnodwyd yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Er mai pandemig COVID 19 sy'n bennaf oherwydd hyn, gostyngiad yn nifer ystadau a staff y Cyngor a datgarboneiddio'r grid cenedlaethol, ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw perfformiad amgylcheddol parhaus y Cyngor i leihau effeithiau andwyol ar ein hamgylchedd.  Nodwch nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ysgolion Caerdydd ac felly nad ydynt yr un fath â'r allyriadau $CO_2$ e a adroddwyd at ddibenion Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral Llywodraeth Cymru.

*Ffigur 1 – Cymhariaeth flynyddol cyfanswm $CO_2$ e*




---

[1] Ffactorau trosi Ynni a Nwyon Tŷ Gwydr Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer adroddiadau cwmni (2018, 2019, 2020 a 2021). Cyfanswm y ffactorau trosi Nwyon Tŷ Gwydr uniongyrchol a ddefnyddir ar gyfer yr holl allyriadau sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.

## 4.2 Adeiladau/Goleuadau Stryd [1]

| | Y maint a ddefnyddiwyd yn 2017/18 | Y maint a ddefnyddiwyd 2018/19 | Y maint a ddefnyddiwyd 2019/20 | Y maint a ddefnyddiwyd 2020/21 | Tunelli $CO_2$ (e) 2017/18 | Tunelli $CO_2$ (e) 2018/19 | Tunelli $CO_2$ (e) 2019/20 | Tunelli $CO_2$ (e) 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nwy Naturiol | 15,995,395 KWh | 14,268,689 KWh | 13,944,695 KWh | 12,733,527 kWh | 2,946 | 2,623 | 2,564 | 2,332 |
| Olew | 19,653 litr | 15,243 litr | 16,524 litrau | 9,470 litr | 53 | 41 | 44 | 24 |
| Trydan Adeiladau | 14,180,837 KWh | 13,225,204 KWh | 12,855,529 KWh | 9,147,200 kWh | 4,985 | 3,380 | 2,997 | 1,942 |
| Goleuadau Stryd Trydan | 14,464,481 KWh | 10,333,705 KWh | 10,086,062 KWh | 10,073,388 kWh | 5,085 | 2,641 | 2,351 | 2,139 |
| **Cyfanswm** | | | | | **13,069** | **8,685** | **7,956** | **6,437** |

*Ffigur 2 – Cymhariaeth flynyddol $CO_2$ e Adeiladau/Goleuadau Stryd*




*Ffigur 3 - $CO_2$ e Adeiladau/Goleuadau Stryd*




[1] Ffactorau trosi Ynni a Nwyon Tŷ Gwydr Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer adroddiadau cwmni (2021). Cyfanswm y ffactorau trosi Nwyon Tŷ Gwydr uniongyrchol a ddefnyddir ar gyfer yr holl allyriadau sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.

Bu gostyngiad cyson cyffredinol mewn allyriadau carbon o adeiladau ers 2013/14, a gostyngiad pellach yn y flwyddyn ddiwethaf o 19% . Mae hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad sylweddol yn y defnydd yn eiddo'r Cyngor ar ôl i bolisi gwaith cartref gael ei fabwysiadu'n gyflym o ganlyniad i bandemig COVID 19. Wrth symud ymlaen, mae'r Amgylchedd Adeiledig yn un o ffrydiau gwaith allweddol Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor, a bydd angen cynyddu mesurau lleihau carbon a gwrthbwyso yn sylweddol.

Mae'r trydan ar gyfer goleuadau stryd wedi gweld gostyngiad parhaus oherwydd bod goleuadau LED yn parhau i gael eu cyflwyno ledled y ddinas a threfn gostwng lefel goleuadau ddiwygiedig.

### 4.3 Trafnidiaeth

| | Y maint a ddefnyddiwyd yn 2017/18 | Y maint a ddefnyddiwyd yn 2018/19 | Y maint a ddefnyddiwyd yn 2019/20 | Y maint a ddefnyddiwyd yn 2020/21 | Tunelli $CO_2$ (e) 2017/18 | Tunelli $CO_2$ (e) 2018/19[1] | Tunelli $CO_2$ (e) 2019/20 | Tunelli $CO_2$ (e) 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fflyd - Disel | 1,635,515 Litr | 1,651,456 Litr | 1,713,222 Litr | 1,535,589 Litr | 4,370 | 4,090 | 4,121 | 3,858 |
| Fflyd - Di-blwm | 29,533 Litr | 26,739 Litr | 28,760 Litr | 27,874 Litr | 68 | 64 | 66 | 61 |
| Fflyd Olew Nwy | 55,925 Litr | 47,087 Litr | 47,826 Litr | 55,830 Litr | 165 | 130 | 123 | 154 |
| Defnyddiwr car hanfodol ac achlysurol * * | 1,945,122 milltir | 1,948,460 milltir | 1,934,776 milltir | 789,343 milltir | 571 | 566 | 534 | 213 |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,174** | **4,850** | **4,844** | **4,286** |

**Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar gyfartaledd pob math o gar a thanwydd anhysbys

Mae 2020/21 wedi bod yn llwyddiant o ran gostyngiadau $CO_2$ (e), gyda gostyngiad o 11.5% o'i gymharu â chanlyniadau 2019/20.

Mae effaith pandemig COVID-19 wedi bod yn ffactor ar y ffigurau hyn, ac er bod defnydd cerbydau unigol wedi gostwng, mae nifer y cerbydau wedi cynyddu. Mae hyn yn effaith uniongyrchol o orfod cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol. Unwaith y bydd y ddau ffactor hyn wedi'u hystyried, mae'r Cyngor wedi cofnodi gostyngiad o 11.5% o hyd. Mae'r pandemig COVID 19 yn annhebygol o gael yr un effaith yn 2021/22, fodd bynnag, mae camau'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw gynnydd sy'n codi fel rhan o adferiad COVID-19.

Bydd rheoli gwastraff yn cyflwyno CCG Trydan (E-Gasglu) newydd sbon, ac yn dilyn profion, mae archeb ar gyfer 5 cerbyd trydan ychwanegol wedi'i osod. Yn ogystal, mae Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan y Cyngor bellach wedi cymryd camau tuag at weithredu, gan ganiatáu i'r rhaglen amnewid cerbydau trydan godi eto a ddylai fod o gymorth pellach yn rhagolygon 2021/22.

*Ffigur 4 – Cymhariaeth flynyddol trafnidiaeth $CO_2$ e*




*Ffigur 5 – Trafnidiaeth $CO_2$ e 2019/20*





PAUL ORDERS, PRIF WEITHREDWR
CYNGOR CAERDYDD
HYDREF 2021